

## LLEOLIADAU T.LLEW JONES

### BWLCH MELYN, PENTRE-CWRT

Dyma'r tŷ lle ganed T. Llew Jones ar Hydref 11eg, 1915. Merch i grydd lleol oedd ei fam, Hannah Mary Jones, ac roedd ei dad, James Jones, yn fab i fasiwn (saer maen). Heddiw, mae yna arwydd ar y wal yn dynodi'r lle fel man geni'r awdur, ac mae'r englyn gan y bardd enwog Dic Jones yn dweud y cyfan:

Rhythmau'r iaith yw y muriau hen – a chwedl  
A chân yw pob llechen,  
Cartre' Llew, crud deor llên  
A thŷ mabolaeth awen.

### YSGOL CAPEL MAIR, PENTRE-CWRT

Cychwynnodd T. Llew Jones fel disgybl yn yr ysgol hon ym 1920, a'r teulu erbyn hyn wedi symud i let-wen, Pentre-cwrt. Roedd ei ddyddiau ysgol yng Nghapel Mair yn rhai hapus, a dyma lle y dechreuodd ymddiddori mewn straeon. Un prynhawn dydd Gwener, cafodd fynd i ystafell y 'Mishtir' (y Prifathro) i glywed stori am ddyn ar gefn ceffyl yn dod at dollborth yng nghanol y nos. Am ryw reswm, ni chafodd fynd y prynhawn dydd Gwener canlynol, felly ni chafodd fyth glywed ddiwedd y stori. Bu hyn ar feddwl yr awdur am flynyddoedd, ac felly, un dydd, penderfynodd ysgrifennu ei fersiwn ef ei hun o'r digwyddiadau, a chyhoeddi *Un Noson Dywyll* ym 1973 – bron hanner canrif ar ôl iddo glywed dechrau'r stori am y tro cyntaf.

### PISHYN PADIS

Darn o dir comin ar lan afon fach o'r enw Afon Shedi, gerllaw tŷ mam-gu T. Llew Jones oedd Pishyn Padis. Roedd ei fam-gu'n cadw siop fach, a phan fyddai'n mynd draw i weld ei fam-gu, byddai wrth ei fodd yn chwarae gyda phlant y sipsiwn a fyddai'n aml yn aros ar y tir comin yn eu carafanau lliwgar. Gyda'r nos, arferai'r sipsiwn eistedd o amgylch y tân yn dweud straeon, ond roedd yna un hen wraig a eisteddai'n agosach at y tân na neb arall, gan ysmegu pîb glai, a syllu i mewn i'r fflamau. Roedd ganddi wisg hir, ddu amdani, yn ymestyn at y llawr, gyda darnau tair ceiniog arian wedi'u gwnïo mewn tair rhes o amgylch y gwaelod. Tybed ai'r hen wraig yma a bortreadir gan Anti Edith yn *Tân ar y Comin* (1975)?

## CWM ALLTCAFAN

Mae'r cwm prydferth hwn gerllaw Pentre-cwrt, Llandysul, ac mae'n lle arbennig o bwysig yn hanes T. Llew Jones. Pan oedd T. Llew yn fach, roedd yma ddwy ffatri wlân, sef ffatrioedd Alltcafán a Derw, ac yn ffatri Derw y cyflogid tad T. Llew fel gwehydd. Mae cariad T. Llew tuag at y lle yn amlwg yn y gerdd o'r un enw, ac fe glywir y bardd ei hun yn adrodd detholiad o'r gerdd yn y ffilm. Dywedodd un waith:

"Mae'n sicr fod holl brofiadau bardd yn cael dylanwad arno. Felly mae profiadau bore oes ac awyrgylch yr hen gartref yn rhan ohonof fi."

Mae'n werth mynd i weld Cwm Alltcafán yn y Gwanwyn pan fo'r sane gwcw (clychau glas) yn drwch, a phan fo'r afon Teifi'n "lifo'n araf drwy y cwm". Peidiwch oedi - "rhag ofn..."

## T. LLEW, Y MILWR – A'R CHWARAEWR GWYDDBWYLL

Ym 1940, priododd T. Llew Jones â Margaret Enidwen Jones, un o blant teulu enwog Y Cilie. Bu'n ddigon anffodus, i gael ei alw i wasanaethu ei wlad ar ddydd ei briodas, ac ymunodd â'r Llu Awyr, ac yna'r fyddin, a bu'n aelod ohoni tan 1945. Teithiodd i'r Aifft, Gogledd yr Affrig a'r Eidal, ac yn y cyfnod hwn yn yr Eidal y dechreuodd ymddiddori mewn gwyddbwyll. Yr oedd yn rhannu pabell gyda Sais ar y pryd, a phan gafodd hwnnw ei alw 'nôl adre, sylweddolodd nad oedd ganddo le yn ei fag i'w set wyddbwyll, felly fe'i cynigiodd i T. Llew. Onibai am y weithred fach syml yma, tybed a fyddai T. Llew wedi dal ati i chwarae gwyddbwyll? Mae mab T. Llew, lolo, yn chwaraewr gwyddbwyll rhyngwladol, ac fe gyhoeddodd y tad a'r mab lyfr Cymraeg ar wyddbwyll, y cyntaf erioed yn yr iaith, ym 1980 – *A Chwaraei di Wyddbwyll?*

## T. LLEW, Y CRICEDWR

Bu gan T. Llew ddiddordeb mawr iawn mewn criced drwy gydol ei oes – fel gwyliwr a chwaraewr. Mae'n debyg ei fod yn fowliwr llaw-chwith araf digon peryglus yn ei ddydd! Yn y ffilm, mae Dafydd yn chwarae criced ar yr union faes lle yr arferai T. Llew chwarae pan oedd yn ifanc, ond wrth gwrs roedd y lle'n hollol wahanol bryd hynny. Cae ar gyfer gwartheg ydoedd, a bu'n rhaid i T. Llew ar fwy nag un achlysur wyllo ym mhle'n union roedd yn gosod ei draed wrth redeg!

## EGLWYS SANT CYNLLO, LLANGYNLLO, CEREDIGION

Mae'r eglwys hon yn allweddol ym mywyd T. Llew Jones gan mai ar dŵr yr eglwys y gwelir y ceiliog y gwynt enwog a fu'n ysbrydoliaeth i'r englyn o'r un enw. Ym 1950, pan oedd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerffili, penderfynodd T. Llew gystadlu ar gystadleuaeth yr englyn. Roedd 347 o englynion wedi cyrraedd y gystadleuaeth, ond credai'r beirniad, Gwenallt, mai englyn T. Llew oedd yn rhagori. Ceir mwy o'r hanes yn y ffilm, a hynny gan T. Llew ei hun mewn sgwrs o'r Babell Lân yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli 2000. Yn y Babell Lân, ceir cyfle i drafod llenyddiaeth a barddoniaeth o bob math, ac yn y ffilm, gellir gweld yn glir pam bod T. Llew yn storiwr mor arbennig. Sylwch ar y ffordd y mae'n chwarae â'i gynulleidfa, ac ar ei amseru arbennig. Tybed a allai nifer o gomediwyr stand-up heddiw ddysgu gwrs neu ddwy gan y cyfarwydd (storiwr) mawr ei hun?

Dyma'r englyn:

Ceiliog y Gwynt  
Hen wylwr fry mewn helynt – yn tin-droi  
Tan drawiad y corwynt;  
Ar heol fawr y trowynt  
Wele sgwâr polis y gwynt.

## CYLCH YR ORSEDD, LLANDYBÏE

Ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â Llandybïe ym 1944, ac felly codwyd meini'r Orsedd yno er mwyn i Orsedd y Beirdd gynnal eu seremonïau lliwgar. Roedd Eisteddfod 1944 yn un llai nag arfer oherwydd bod yr Ail Ryfel Byd yn parhau. Codir Cylch yr Orsedd ym mhob Eisteddfod Genedlaethol, a gellir gweld y meini cadarn yma mewn sawl tref a phentref drwy Gymru gyfan. Tybed a oes yna feini gerllaw eich ysgol chi? Erbyn hyn, defnyddir meini plastig y gellir eu codi'n hwylus a'u cludo o un Eisteddfod Genedlaethol i'r llall.

## YSGOL A THŶ'R YSGOL, COED-Y-BRYN

Bu T. Llew Jones yn Brifathro Ysgol Tre-groes rhwng 1951 ac 1957, a dyma'r cyfnod pan y dechreuodd ysgrifennu straeon byrion a sgriptiau radio er difyrrwch, ac, wrth gwrs, er mwyn ennill arian ychwanegol at ei gyflog blynyddol o £360. Yna, ar Ionawr 1af, 1958, dechreuodd ar ei waith fel Prifathro Ysgol Gynradd Coed-y-bryn. Roedd Ysgol Coed-y-bryn yn ysgol llai o faint nag ysgol Tre-groes, ond roedd tŷ'r ysgol da yn mynd gyda'r swydd, ac roedd hyn yn apelio'n fawr. Erbyn hyn, roedd gan T. Llew a'i wraig ddau o fechgyn mawr – Emyr Llewelyn, a aned yn 1941, a lolo Llewelyn, a aned yn 1947 – ac roedd hi'n braf peidio â gorfod teithio'n rhy bell er mwyn cyrraedd y gwaith!

A ELLIR RHOI CERDD DAFYDD I MEWN FAN HYN?